Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 7 Medi 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | J W Jones | R D Lewis |
| W G Lewis | H M Morris | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| James Craven | School Support Coordinator |
| Craig Davies | Associate Lawyer |
| Barrie Gilbert | Uwch-swyddog Trafnidiaeth |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A Davis a/ac J A Hale

---

## 15 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Apeliadau a Gwobrau a gynhaliwyd ar 16 Awst 2022 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 17 Dinas a Sir Abertawe - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.(Gwybodaeth)

Nodwyd y polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

## 18 Llywodraeth Cymru - Teithio gan Dysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol. ( Gwybodaeth)

Nodwyd Teithio gan Ddysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru.

## 19 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 20 Apêl Cludiant i'r Ysgol.

Clywodd y Pwyllgor apêl gan riant y disgybl a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr apêl yn erbyn penderfyniad yr adran mewn perthynas â chymhwysedd am gludiant am ddim o'r cyfeiriad cartref i Ysgol Gyfun yr Esgob Gore.

Yna cyflwynodd rhieni’r disgybl a'u cynrychiolydd cyfreithiol sylwadau llafar i’r Pwyllgor i gefnogi eu cyflwyniadau ysgrifenedig ac amlinellwyd amgylchiadau penodol eu hapêl mewn perthynas â’r plentyn a’i hamgylchiadau a’i hamodau personol.

Roedd swyddogion o'r adrannau Addysg a Chludiant hefyd wedi rhoi sylwadau llafar i gefnogi eu cyflwyniadau ysgrifenedig.

Amlinellwyd y materion ynghylch y polisi a oedd yn ymwneud â'r pellter o'r eiddo i'r ysgol, y llwybrau cerdded/bws sydd ar gael ac argaeledd rhieni i gludo'r plentyn i'r ysgol a manylwyd arnynt gan y swyddogion i'r pwyllgor.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r apelydd a'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd yn llawn.

**Penderfynwyd** gwrthod yr apêl ar ran y disgybl a amlinellwyd yn yr adroddiad gan nad oedd y pwyllgor yn teimlo bod amgylchiadau eithriadol i'r achos.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm

**Cadeirydd**